This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

CO18164 - Ty Glas Avenue (Croesfan Sebra Ddyrchafedig)

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae cyllid wedi dod ar gael fel rhan o gytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig â'r datblygiad cyfagos o "The Orchards" i mewn i fflatiau ymddeol preswyl a hefyd arian o ddatblygiad McDonalds. Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer adeiladu Croesfan Sebra Ddyrchafedig ar Ty-Glas Avenue yng nghyffiniau'r safle a gwelliannau i gyffordd y ffordd fynediad i McDonalds.

Datblygwyd y cynllun hwn i wella diogelwch ar y ffordd ar Ty-Glas Avenue. Ei nod yw gwella hygyrchedd o fewn y gymuned, annog teithio llesol gyda gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r cynnig presennol ar gyfer y cynllun yn cynnwys adeiladu Croesfan Sebra Ddyrchafedig gyda Rhwystrau Ymwthiol ar Ty-Glas Avenue yng nghyffiniau Canolfan Hamdden Llanisien. Mae safle bws ar ochr ogleddol y ffordd ar hyn o bryd a fydd yn cael ei adleoli a bydd marciau safle bws ffurfiol yn cael eu cyflwyno. Cynhaliwyd arolygon cerddwyr yn y lleoliad hwn hefyd sy'n nodi bod galw am gyfleusterau croesi i gerddwyr yn y lleoliad hwn.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod gennych awgrymiadau eraill i wella diogelwch ar Ty Glas Avenue. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na allwn newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn **14/10/2020** at ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros ***groesfan pâl***. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â ***rhwystrau ymwthiol*** sy'n gwella gweledededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra Ymwthiol. ***Croesfan sebra*** ag arni ***ddarnau ymwthiol*** er mwyn culhau'r ffordd i'r lled lleiaf ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gweledededd i ac o gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Gall ***bwrdd arafu*** fod yn rhan o'r cynllun hefyd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. ***Croesfan sebra*** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar ***gyffordd fwrdd,*** yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Mae Cyllid Adran 106 (A106) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol (ACLL) ymgymryd â chytundeb neu rwymedigaeth cynllunio sy'n gyfreithiol rwymol gyda thirfeddiannwr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio. Caiff hwnnw ei alw'n Gytundeb Adran 106.

Mae'r cytundebau hyn yn ffordd o gyflawni neu mynd i'r afael â materion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Cânt eu defnyddio fwyfwy i gefnogi darparu gwasanaethau a seilwaith, megis priffyrdd, cyfleusterau hamdden, addysg, iechyd a thai fforddiadwy.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **14/10/2020** drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **14/10/2020** by email to TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD